

**Cyngor Sir y Fflint – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet ar Dydd Mawrth, 15 Hydref 2024**

<b>Rhif Eitem Agenda a Chofnod o Benderfyniad Rhif</b>	<b>Testun</b>	<b>Penderfyniad</b>
--	---------------	---------------------

**Rhan A – Eitemau a ystyriwyd yn gyhoeddus**

<b>2</b>	Datgan Cysylltiad	Dim.
<b>3</b>	Cofnodion	Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2024 a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.
<b>4 / 4280</b>	Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLI	Bod yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf yn cael ei fabwysiadu a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau, sef 31 Hydref 2024.
<b>5 / 4281</b>	Canllawiau Cynllunio Atodol CDLI	Mabwysiadu'r CCA ar Estyniadau ac Addasiadau, Tai Newydd yng Nghefn Gwlad a Throsi Adeiladau Gwledig fel CCA a'u gwneud ar gael i'w harchwilio ar wefan y Cyngor.
<b>6 / 4282</b>	Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Digartrefedd Sir y Fflint	<p>(a) Nodi canfyddiadau ac argymhellion Neil Morland &amp; Co. a chefnogi'r adroddiad i symud ymlaen drwy'r cylch pwyllgorau gyda diweddariadau rheolaidd i'w rhannu gyda'r Aelodau o ran cynnydd yn erbyn argymhellion;</p> <p>(b) Derbyn yr egwyddor o osgoi costau ac effeithlonrwydd gwario i arbed i ariannu capasiti staffio ychwanegol o fewn y Gwasanaeth Tai ac Atal trwy arallgyfeirio'r portffolio llety digartref, i uchafu'r cyfle i leihau gwariant ar lety digartref yn llwyddiannus; a</p> <p>(c) Cydnabod yr angen am fodelau tai a rennir a Thai Amfeddiannaeth (HMOs) o fewn y cynlluniau arallgyfeirio llety digartref.</p>
<b>7 / 4283</b>	Adolygu Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd a Pholisi Archwilio Priffyrdd a Meysydd Parcio	<p>(a) Cymeradwyo'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (HAMP) diwygiedig fel y'i cyflwynwyd;</p> <p>(b) Cymeradwyo'r Polisi Archwilio Priffyrdd a Meysydd Parcio diwygiedig fel Llawlyfr Cynnal</p>

**Cyngor Sir y Fflint – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet ar Dydd Mawrth, 15 Hydref 2024**

Rhif Eitem Agenda a Chofnod o Benderfyniad Rhif	Testun	Penderfyniad
		<p>a Chadw;</p> <p>(c) Cefnogi'r drefn a amlinellwyd i ddarparu diweddariadau ac adrodd ar berfformiad i hysbysu adolygiadau yn y dyfodol o'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (HAMP) a'r Llawlyfr Cynnal a Chadw;</p> <p>(d) Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r adolygiad o'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (HAMP) a threfniadau a chamau gweithredu presennol y portffolio i gynnal y rhwydwaith priffyrdd; a</p> <p>(e) Bod yr argymhellion ychwanegol a wnaed gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi i ysgrifennu at y Prif Weinidog ynghylch y diffyg cyllid mewn asedau priffyrdd a chynnal a chadw, ynghyd â darparu hyfforddiant ar Gynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (HAMP) ar gyfer Trosolwg a Cefnogi Aelodau'r Pwyllgor Craffu.</p>
<b>8 / 4284</b>	New Brighton – mabwysiadu enw Cymraeg	Mabwysiadu “Pentre Cythrel” fel y ffurf Gymraeg gydnabyddedig ar New Brighton, a gofyn i Gomisiynydd y Gymraeg ei chynnwys yn y rhestr safonol o enwau lleoedd Cymraeg.
<b>9 / 4285</b>	Monitro Cyllideb Refeniw 2024/25 (Mis 5)	Nodi'r adroddiad a'r effaith ariannol amcangyfrifedig ar gyllideb 2024/25, ynghyd â'r mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i wella'r sefyllfa ariannol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
<b>10 / 4286</b>	Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023/24	Cymeradwyo cynnwys Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023/24 a chyhoeddiad dilynol ar wefan y Cyngor.
<b>11 / 4287</b>	Y diweddaraf ar y Grant Rhwydwaith Bysiau a Gwasanaethau Bws Lleol yn	(a) Cydnabod a chefnogi'r cynigion yn yr adroddiad;

**Cyngor Sir y Fflint – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet ar Dydd Mawrth, 15 Hydref 2024**

<b>Rhif Eitem Agenda a Chofnod o Benderfyniad Rhif</b>	<b>Testun</b>	<b>Penderfyniad</b>
	Sir y Fflint	<p>(b) Bod y Cabinet yn cael gwybod y bydd unrhyw oedi yn cynrychioli pwysau cyllidebol ar gyfer Gwasanaethau Stryd a Chludiant a'r awdurdod yn 2025/26; a</p> <p>(c) Nodi'r gofyniad i ganiatáu 56 diwrnod o rybudd i'r Comisiwn Traffig (78 diwrnod ar gyfer gwasanaethau i Loegr) ar gyfer unrhyw newidiadau a/neu derfynu gwasanaethau bysiau.</p>
<b>12 / 4288</b>	Ymateb i Adolygiad Archwilio Cymru "Gofal Brys ac Argyfwng: Llif Allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru"	Nodi adroddiad Archwilio Cymru a'r mesurau sy'n cael eu cymryd yn rhanbarthol ac yn lleol i weithredu'r argymhellion a wnaed.
<b>13 / 4289</b>	Caffael System Gwybodaeth Cleientiaid	Derbyn y diweddariad ar y gweithgaredd a wnaed hyd yma i gaffael system gwybodaeth cleientiaid newydd ar gyfer portffolio'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
<b>14 / 4290</b>	Hwb Diogelu Plant a Theuluoedd	Bod sefydlu'r Hyb Diogelu Plant a Theuluoedd i hwyluso rhannu gwybodaeth aml-asiantaeth a chefnogi penderfyniadau effeithlon, gwybodus ac amserol i ddiogelu plant mewn perygl yn cael ei nodi a'i gefnogi'n wleidyddol.
<b>15 / 4291</b>	Ymestyn y Ddarpariaeth Addysg Arbenigol	<p>(a) Nodi canlyniadau'r ymgynghoriad;</p> <p>(b) Bod y Cabinet yn cytuno i gefnogi a darparu unrhyw sylwebaeth ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth addysg arbenigol fewnol yn Ysgol Gynradd Pen Coch, Y Fflint; a</p> <p>(c) Cymeradwyo symud ymlaen i gyhoeddi rhybudd statudol i gychwyn cyfnod o 18 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau.</p>

**Cyngor Sir y Fflint – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet ar Dydd Mawrth, 15 Hydref 2024**

<b>Rhif Eitem Agenda a Chofnod o Benderfyniad Rhif</b>	<b>Testun</b>	<b>Penderfyniad</b>
<b>16 / 4292</b>	Ymestyn y Ddarpariaeth Adnoddau Anghenion Dysgu Ychwanegol Arbenigol yn y Rhwydwaith Addysg Uwchradd	(a) Cefnogi'r cais i ehangu darpariaeth adnoddau ADY arbenigol y Cyngor o fewn y rhwydwaith addysg uwchradd; a  (b) Cefnogi cyhoeddi hysbysiad statudol ar gyfer cyflwyno darpariaeth adnoddau ADY newydd yn Ysgol Uwchradd y Fflint ac Ysgol Uwchradd Penarlâg.
<b>17 / 4293</b>	Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth	(a) Cymeradwyo cychwyn ymgynghoriad ffurfiol ar 'Drwyddedu Ychwanegol' ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth a fydd yn agored i'r cyhoedd a rhanddeiliaid; a  (b) Derbyn canlyniad yr ymarfer ymgynghori, ar ôl ei gwblhau.
<b>18 / 4294</b>	Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2024-25 Cyngor Sir y Fflint	Cymeradwyo Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2024-25.
<b>19 / 4295</b>	YMARFER PWERAU DIRPRWEDIG	Nodwyd.
<b>20 / 4296</b>	Rhaglen Rhesymoli Swyddfeydd a Champws Neuadd y Sir	Nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo bwrw ymlaen â Rhan 1 o'r prosiect Swyddfeydd a Neuadd y Sir.
<b>Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) 1985 - Ystyried gwahardd y wasg a'r cyhoedd</b>		
<b>22 / 4297</b>	Dyled sy'n Weddill - Dileu	Cymeradwyo'r symiau a ddilëwyd o £36,787.20 ar gyfer tair anfoneb heb eu talu.